Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

**Practis Deintyddol The Village**

11 Ionawr 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan GIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn**: 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-6433-9


© Hawlfraint y Goron 2016

## Cynnwys


1. Cyflwyniad .......... 2
2. Cyd-destun .......... 3
3. Crynodeb .......... 4
4. Canfyddiadau .......... 6
   Ansawdd Profiad y Claf .......... 6
   Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 9
   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 15
5. Y Camau Nesaf .......... 17
6. Methodoleg .......... 18
   Atodiad A .......... 20

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol o'r holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol The Village yn 61, New Road, Sgiwen, SA10 6HA ar 11 Ionawr 2016.

Archwiliodd AGIC sut yr oedd Practis Deintyddol The Village yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau Deintyddol gyda rhybudd ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth - Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r diwylliant yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol The Village yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Sgiwen Abertawe. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Practis cymysg sy'n cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a GIG yw Practis Deintyddol The Village.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pum deintydd (gan gynnwys perchennog y practis), tair nyrs a rheolwr practis. Roedd dwy nyrs dan hyfforddiant hefyd yn gweithio yn y practis ar adeg ein harolygiad.

## 3. Crynodeb

Mae Practis Deintyddol The Village yn trin cleifion gydag urddas, parch a charedigrwydd. Dywedodd cleifion a wnaeth sylwadau eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth yr oeddent wedi ei dderbyn. Mae tîm y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon.

Mae'r practis yn cynnig ffyrdd i gleifion gynnig adborth ar eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau'r practis.

Mae gan y practis drefniadau a systemau ar waith sydd â'r nod o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd yn ymddangos bod safle'r practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac roedd mesurau ar waith i storio a chael gwared ar wastraff a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod offer diffodd tân ar gael ac roedd hwn wedi cael ei wasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae gan y staff fynediad at offer dadebru ac roeddent wedi derbyn hyfforddiant ar ymdrin ag argyfwng claf (ymgwympiad).

Nodwyd gennym fod angen gwelliant o ran elfennau o'r broses ddadheintio. Cytunodd aelodau staff uwch y practis i wneud trefniadau i gydymffurfio'n llawn â'r polisi a'r canllawiau cenedlaethol. Nodwyd gennym hefyd fod angen gwelliant i ddangos yn ffurfiol bod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr x yn ddiogel. Gofynnwyd am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith gan berchennog y practis ar y mater hwn a chyflwynwyd cynllun gwella yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Roeddem yn gofyn am ragor o fanylion am y camau a gymerwyd ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Dangosodd sgyrsiau gydag aelodau staff uwch y practis eu bod wedi ymrwymo i wella'n barhaus y gwasanaeth a ddarperir i gleifion sy'n ymweld â'r practis.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion deintyddol cleifion. Roedd y rhain yn dangos bod triniaeth wedi cael ei chynllunio a'i darparu gyda'r nod o sicrhau diogelwch a lles cleifion. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen i'r deintyddion ysgrifennu nodiadau mwy manwl i fodloni'n llawn safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

Mae rheolwr practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd ac mae'n gweithio'n agos gyda pherchennog y practis. Fe'n hysbyswyd gan staff eu bod yn teimlo bod cyfathrebiad yn y tîm yn effeithiol a'u bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi.

Roedd mwyafrif y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn arddangos eu tystysgrifau cofrestru ag AGIC ac roedd ganddynt ddogfennau ar gael fel sy'n

ofynnol o dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Lle nad oedd hyn yn wir, rydym wedi gofyn i drefniadau gael eu gwneud i roi sylw i hyn.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Mae Practis Deintyddol The Village yn trin cleifion gydag urddas, parch a charedigrwydd. Dywedodd cleifion a wnaeth sylwadau eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth yr oeddent wedi ei dderbyn. Mae tîm y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon.**

**Mae'r practis yn cynnig ffyrdd i gleifion gynnig adborth ar eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau'r practis.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn canfod safbwyntiau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Dychwelwyd cyfanswm o naw o holiaduron wedi'u cwblhau.

Gofal ag urddas

Canfuwyd gennym fod pobl sy'n ymweld â'r practis yn cael eu trin gydag urddas a pharch. Fe'n hysbyswyd ganddynt eu bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth ddeintyddol.

Roedd tîm y practis yn gyfeillgar ac fe'u gwelwyd yn bod yn foesgar a chwrtais tuag at gleifion. Cadarnhaodd y cleifion a wnaeth sylwadau bod tîm y practis yn rhoi croeso iddynt pan fyddant yn ymweld â'r practis. Dywedodd pob claf a ddychwelodd holiadur wedi'i gwblhau i ni yn ddieithriad ei fod yn teimlo ei fod wedi derbyn digon o wybodaeth am ei driniaeth ddeintyddol.

Mae'r practis yn darparu gwasanaethau deintyddol GIG a phreifat. Roedd gwybodaeth am gostau deintyddol preifat a'r cynllun triniaeth ddeintyddol (taliad misol) wedi ei harddangos yn eglur. Mae hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth am faint y gallai eu triniaeth ei gostio. Fe'i gwnaed yn eglur gan y practis bod gofal deintyddol GIG ar gael i blant (iau na 18 oed) yn unig a darperir hwn am ddim. Mae copïau o daflen wybodaeth i gleifion ar gael i gleifion fynd â hi gyda nhw. Mae hyn yn golygu bod gan gleifion fynediad at wybodaeth allweddol am y practis y gellid ei chadw i gyfeirio ati yn y dyfodol.

Gofal amserol

Canfuwyd gennym fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon.

Dywedodd cleifion a wnaeth sylwadau nad oeddent wedi dioddef oedi sylweddol cyn cael eu gweld gan ddeintydd. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer

hysbysu cleifion os bydd eu deintydd yn rhedeg yn hwyr neu'n absennol yn annisgwyl.

Caiff gwybodaeth i gleifion am sut i gael mynediad at driniaeth ddeintyddol frys, gan gynnwys pan fo'r practis ar gau, ei gwneud ar gael mewn amrywiaeth o ffyrdd. Cadarnhaodd mwyafrif y cleifion a ddychwelodd holiaduron wedi'u cwblhau eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

Yn y sampl o gofnodion cleifion i ni ei hystyried, gwelsom fod y deintyddion wedi gwneud atgyfeiriadau i gleifion dderbyn triniaeth arbenigol yn brydlon.

Cadw'n Iach

Gwelsom fod taflenni hybu iechyd ar gael i helpu i gynorthwyo cleifion i gymryd gofal am eu hylendid a'u hiechyd geneuol eu hunain.

Gofal Unigol

Roedd y practis wedi gwneud ymdrechion i wneud ei wasanaethau'n hygyrch i bobl. Roedd trefniadau ar waith i bobl gynnig adborth ar eu profiadau o ddefnyddio'r practis ac i godi pryder (cwyn).

Mae gan y practis drefniadau i bobl ag anawsterau symud gael mynediad at y practis. Mae deintyddfeydd sydd â mynediad i gadeiriau olwyn wedi'u lleoli ar y llawr daear. Ceir mynediad at y rhain o gefn yr adeilad, sy'n darparu llwybr gwastad i'r deintyddfeydd.

Mae mecanweithiau ar waith i gleifion ddarparu adborth ar eu profiad o ddefnyddio'r practis. Gwelsom fod bocs awgrymiadau wedi'i leoli yn yr ystafell aros fel y gall cleifion ddarparu, ar sail barhaus, awgrymiadau unigol ar sut y gellid gwella'r gwasanaeth. Hefyd, gwelsom fod arolwg wedi cael ei gynnal yn ystod 2015. Roedd y canlyniadau wedi cael eu gwerthuso i nodi lle gellid gwneud gwelliannau a chamau wedi'u cytuno.

Mae gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol GIG a phreifat. Mae hon yn bodloni gofynion y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â *Gweithio i Wella*, y trefniadau ar gyfer ymdrin â chwynion am ofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru, mae angen i'r polisi adlewyrchu mai 2 ddiwrnod gwaith yw'r terfyn amser ar gyfer ymateb i gwynion. Cytunodd rheolwr y practis i ddiwygio'r weithdrefn ysgrifenedig i adlewyrchu hyn. Mae rheolwr y practis yn cadw cofnodion ysgrifenedig o'r holl bryderon (cwynion) a dderbynnir. Gwelsom fod y practis wedi ymdrin â phryderon (cwynion) a dderbyniwyd yn brydlon. Roedd gweithdrefn gwynion y practis wedi'i harddangos yn yr ystafell aros.

Cadarnhaodd mwyafrif y cleifion a ddychwelodd holiaduron AGIC wedi’u cwblhau eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn am wasanaethau deintyddol y maent yn eu derbyn.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Mae gan y practis drefniadau a systemau ar waith sydd â'r nod o ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd yn ymddangos bod safle'r practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac roedd mesurau ar waith i storio a chael gwared ar wastraff a gynhyrchir gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod offer diffodd tân ar gael ac roedd hwn wedi cael ei wasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae gan y staff fynediad at offer dadebru ac roeddent wedi derbyn hyfforddiant ar ymdrin ag argyfwng claf (ymgwympiad).**

**Nodwyd gennym fod angen gwelliant o ran elfennau o'r broses ddadheintio. Cytunodd aelodau staff uwch y practis i wneud trefniadau i gydymffurfio'n llawn â'r polisi a'r canllawiau cenedlaethol. Nodwyd gennym hefyd fod angen gwelliant i ddangos yn ffurfiol bod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr x yn ddiogel. Gofynnwyd am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith gan berchennog y practis ar y mater hwn a chyflwynwyd cynllun gwella yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Roeddem yn gofyn am ragor o fanylion am y camau a gymerwyd ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.**

**Dangosodd sgyrsiau gydag aelodau staff uwch y practis eu bod wedi ymrwymo i wella'n barhaus y gwasanaeth a ddarperir i gleifion sy'n ymweld â'r practis.**

**Edrychwyd ar sampl o gofnodion deintyddol cleifion. Roedd y rhain yn dangos bod triniaeth wedi cael ei chynllunio a'i darparu gyda'r nod o sicrhau diogelwch a lles cleifion. Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen i'r deintyddion ysgrifennu nodiadau mwy manwl i fodloni'n llawn safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.**

<u>Gofal Diogel</u>

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod gan y practis drefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a lles staff sy'n gweithio yn y practis a phobl sy'n ymweld.

Roedd adeilad y practis yn amlwg wedi'i gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Mae mesurau diogelwch ar waith i amddiffyn yr adeilad rhag mynediad heb awdurdod. Roedd offer diffodd tân wedi'i leoli mewn lleoliadau strategol o gwmpas y practis a gwelsom fod hwn wedi cael ei wasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd eitemau trydanol bach wedi bod yn destun profion dyfeisiau cludadwy (PAT) i asesu a oeddent yn ddiogel i'w defnyddio.

Fe'n hysbyswyd bod contract ar waith ar gyfer trosglwyddo gwastraff peryglus ac nad yw'n beryglus a gynhyrchir gan y practis a gwelsom waith papur yn cadarnhau'r trefniant hwn. Gwelsom fod gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel cyn iddo gael ei gasglu gan y contractwr gwastraff. Roedd gwahanwyr amalgam wedi'u gosod fel y gellid tynnu gronynnau amalgam (yn cynnwys mercwri) o lenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel.

Ceir dyfeisiau ail-weinio nodwyddau yn y practis er mwyn lleihau'r perygl o anafiadau damweiniol yn gysylltiedig ag offer meddygol miniog. Dylai tîm y practis hefyd ystyried defnyddio systemau offer miniog mwy diogel[1] fel y nodir yn Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Offer Miniog Mewn Gofal Iechyd) 2013 i leihau'r perygl o anafiadau damweiniol ymhellach.

Canfuwyd gennym fod trefniadau ar waith i ddiogelu pobl rhag heintiau cysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig i leihau croes-heintio ar gael i'r staff
- roedd offer diogelwch personol ar gael yn barod i staff ei ddefnyddio
- darperir cyfleusterau golchi a sychu dwylo neilltuedig
- ceir ystafell ddadheintio ar wahân a phroses y cytunwyd arni ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offerynnau deintyddol a ddefnyddir yn y practis

Er bod ystafell ddadheintio ar wahân ar gael, canfuwyd gennym y byddai hon a'r deintyddfeydd yn elwa o waith uwchraddio i hwyluso glanhau haws ac effeithiol o'r llawr a'r arwynebau gwaith. Roedd perchennog y practis eisoes wedi nodi bod angen y gwelliannau hyn a byddent yn cael eu hystyried yn rhan o ddatblygiad safle'r practis yn y dyfodol. Yn y cyfamser, mae'n rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau i selio'r uniadau rhwng arwynebau gwaith, waliau a lloriau yn effeithiol. Mae hyn er mwyn atal dŵr a malurion rhag casglu mewn holltau a lleihau'r perygl o groes-heintio.

---

[1] Offer miniog mwy diogel – offer meddygol miniog sy'n cynnwys nodweddion neu fecanweithiau i atal y risg o anafiadau damweiniol neu leihau eu posibilrwydd. http://gov.wales/topics/health/cmo/professionals/dental/publication/cdo-letters/sharp-instruments/?lang=cy

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau priodol i selio uniadau rhwng arwynebau gwaith, waliau a lloriau yn effeithiol (neu wneud trefniadau priodol eraill)) i atal dŵr, llwch a malurion rhag casglu mewn holltau.***

Nodwyd gennym fod angen gwelliannau o ran elfennau o'r broses ar gyfer cludo a glanhau offerynnau deintyddol. Er bod staff yn defnyddio cynwysyddion a chaeadau i gludo offerynnau deintyddol, ni ellid cloi'r rhain. Mae hyn yn achosi risg y bydd offerynnau glân ac wedi'u defnyddio yn syrthio allan o'r cynwysyddion os cânt eu gollwng. Hysbyswyd staff uwch y practis am hyn a chytunasant i gael gafael ar gynwysyddion y gellid eu cloi addas, a'u defnyddio.

Roedd y broses ddadheintio'n cynnwys glanhau a rinsio offerynnau ac yna cyflawni proses lanhau bellach arnynt mewn baddon uwchsain cyn eu sterileiddio. Cynghorwyd y dylid newid y dŵr a ddefnyddir ar gyfer glanhau/rinsio ar ôl glanhau pob swp o offerynnau (i leihau croes-heintio ymhellach) gan na ddangoswyd hyn ar ddiwrnod yr arolygiad. Yn dilyn yr arolygiad, rhoddodd staff uwch y practis sicrwydd bod newid y dŵr yn rhan o'r broses bresennol a chytunasant i ddarparu hyfforddiant pellach i'r staff yn hyn o beth.

Roedd offerynnau a oedd wedi'u glanhau a'u sterileiddio (eu prosesu) yn dangos y dyddiad yr oedd angen eu defnyddio neu ei hailbrosesu erbyn trwy farciau ar eu pecynnau. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau a nodir ym Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1)[2]. Mae angen cofnodi'r dyddiad prosesu hefyd er mwyn cydymffurfio'n llawn â dogfen ganllaw WHTM 01-05.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau cydymffurfiad â'r Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1) o ran:***

[2] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn cynnig canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

- ***cludo offerynnau deintyddol rhwng yr ystafell ddadheintio a'r ardaloedd triniaeth yn y practis.***

- ***newid toddiant glanhau a dŵr rinsio a ddefnyddir ar gyfer glanhau a rinsio offerynnau deintyddol.***

- ***cofnodi'r dyddiad prosesu ar becynnau offerynnau deintyddol wedi'u sterileiddio.***

Roedd offer glanhau a sterileiddio a oedd yn cael ei ddefnyddio yn amlwg mewn cyflwr da ac roedd tystysgrifau arolygu cyfredol ar gael ar gyfer offer ffwrn aerglos[3] yn cadarnhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Roedd archwiliadau beunyddiol ar offer yn cael eu cynnal ac roedd llyfrau log wedi cael eu cadw i ddangos y broses hon.

Roedd trefniadau ar waith i gleifion dderbyn y feddyginiaeth a'r driniaeth gywir mewn achos brys. Canfuwyd gennym fod offer dadebru a chyffuriau brys ar gael, ynghyd â system i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio mewn argyfwng claf (ymgwympiad). Archwiliwyd y cyffuriau brys gennym a chanfuwyd bod y rhain o fewn eu dyddiadau terfyn.

Mae gan y staff fynediad at gyfres o siartiau llif yn disgrifio'r camau i'w cymryd os nodir argyfwng claf. Efallai yr hoffai perchnogion y practis storio'r rhain mewn waledi plastig, ynghyd â'r cyffuriau i'w defnyddio, er mwyn hwyluso mynediad haws mewn argyfwng. Roedd y staff i ni siarad â nhw yn ymwybodol o'u swyddogaethau pe bai argyfwng claf. Gwelsom gofnodion hyfforddi a oedd yn dynodi bod hyfforddiant y staff mewn adfywio cardio-pwlmonaidd yn gyfredol.

Mae gan y practis weithdrefn ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu mewn perygl. Roedd y cofnodion hyfforddiant i ni eu gweld yn dynodi bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant. Mae gan y practis Arweinydd Practis ar gyfer Diogelu penodedig fel yr argymhellir mewn canllawiau[4] a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd yr unigolyn hwn hefyd wedi mynychu hyfforddiant ar ddiogelu oedolion. Fe'n hysbyswyd bod hyfforddiant i weddill tîm y practis ar ddiogelu oedolion i'w gadarnhau ond

---

[3] Siambr pwysedd yw peiriant aerglos a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

[4] Arweiniad i Warchod Plant ac Oedolion Bregus mewn Ymarfer Deintyddol Cyffredinol - http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/54349

rhagwelwyd y byddai'r hyfforddiant hwn yn cael ei wneud ar gael yn ystod mis Chwefror 2016.

Daethom i'r casgliad bod angen gwella er mwyn dangos yn ffurfiol fod trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr x) yn ddiogel. Mae hyn oherwydd nad oedd yr holl ddogfennau a gwybodaeth ofynnol am ddefnyddio'r offer pelydr x yn ddiogel ar gael. Gofynnwyd am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith gan berchennog y practis y byddai trefniadau'n cael eu gwneud i gael gafael ar y wybodaeth berthnasol a'r dogfennau sy'n ofynnol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod y wybodaeth a'r dogfennau sy'n ofynnol i ddangos y defnydd diogel o offer radiograffig a ddefnyddir yn y practis ar gael i'w harolygu gan AGIC.***

Cyflwynodd berchennog y practis gynllun gwella yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Roeddem angen rhagor o fanylion ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn am y tystysgrifau diogelwch ar gyfer rhai o'r darnau o offer pelydr x a ddefnyddir ac roeddem mewn cysylltiad â pherchennog y practis am hyn. Pan fyddwn yn cael ein sicrhau bod y gwelliant angenrheidiol wedi cael ei wneud, bydd hyn yn cael ei adlewyrchu trwy gyhoeddi cynllun gwella'r practis (gweler adran 5).

Gwelsom dystysgrifau hyfforddiant yn dynodi bod y deintyddion yn gyfredol o ran ei hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio a'u bod yn bodloni canllawiau a gyflwynwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. O ran y staff hynny nad oedd tystysgrifau hyfforddiant ar gael ar eu cyfer, fe'n hysbyswyd bod hyfforddiant diweddaru wedi'i drefnu ar gyfer 2016.

<u>Gofal Effeithiol</u>

Dangosodd trafodaethau gyda staff uwch y practis eu bod wedi ymrwymo i wneud ymdrechion i wella'n barhaus y gwasanaeth a ddarperir i gleifion sy'n ymweld â'r practis.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliadau clinigol yn rhan o'r broses sicrhau ansawdd gyffredinol. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau o ran rheoli heintiau, ansawdd delweddau pelydr x a chofnodion gofal deintyddol cleifion. Byddai'r rhain yn cynorthwyo i nodi meysydd i'w gwella fel y gellid cymryd camau cywiro.

Adolygwyd sampl ar hap o gofnodion 15 o gleifion er mwyn asesu ansawdd y broses o gadw cofnodion. Roedd y sampl hon yn cynnwys cofnodion a gwblhawyd gan yr holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis ar hyn o bryd. Yn

gyffredinol, roedd y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth ddigonol am hanes meddygol cychwynnol pob claf, ei reswm am ddod, symptomau a thriniaeth a roddwyd. Mae hyn yn dangos bod triniaeth wedi cael ei chynllunio a'i darparu gyda'r nod i sicrhau diogelwch a lles cleifion. Fodd bynnag, canfuwyd amrywiad gennym o ran ansawdd y cofnodion a gadwyd a nodwyd gennym fod angen gwella. Nid oedd yr holl gofnodion yn dangos bod:

- hanesion meddygol cleifion wedi cael eu diweddaru yn ystod pob cwrs o driniaeth a'u cyd-lofnodi i nodi unrhyw newidiadau ac i ddangos bod y deintydd yn ymwybodol
- sgrinio canser wedi cael ei wneud a chyngor ar roi'r gorau i ysmygu wedi'i gynnig oes nodwyd hynny
- archwiliadau peridontol sylfaenol[5] wedi cael eu cynnal yn rheolaidd i fonitro a dod o hyd i glefyd deintgig.
- archwiliadau pelydr x wedi cael eu cynnal at y diben o fonitro dannedd mewn cleifion yr aseswyd eu bod mewn perygl o bydredd dannedd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddyn nhw yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.***

[5] Dull sgrinio yw'r archwiliad peridontol sylfaenol a ddefnyddir gan ddeintyddion i ddod o hyd i glefyd deintgig

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Mae rheolwr practis yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd ac mae'n gweithio'n agos gyda pherchennog y practis. Fe'n hysbyswyd gan staff eu bod yn teimlo bod cyfathrebiad yn y tîm yn effeithiol a'u bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant sy'n berthnasol i'w swyddi.**

**Roedd mwyafrif y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn arddangos eu tystysgrifau cofrestru ag AGIC ac roedd ganddynt ddogfennau ar gael fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Lle nad oedd hyn yn wir, rydym wedi gofyn i drefniadau gael eu gwneud i roi sylw i hyn.**

Canfuwyd gennym yn gyffredinol fod y practis yn cael ei redeg yn dda ac roedd nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i lywio staff yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Rheolwr practis sy'n gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd ac mae'n gweithio'n agos gyda pherchennog y practis. Dynododd sgyrsiau gyda staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi gan staff uwch a thîm y practis. Fe'n hysbyswyd gan staff eu bod yn teimlo fod cyfathrebiad o fewn y tîm yn effeithiol. Fe'n hysbyswyd hefyd y cynhelir cyfarfodydd practis rheolaidd a gwelsom gofnodion ysgrifenedig a oedd yn cynnig tystiolaeth o hyn. Gwelsom sampl o dystysgrifau hyfforddiant a oedd yn dynodi bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Fe'n hysbyswyd gan y staff i ni siarad â nhw eu bod yn cael cyfleoedd i dderbyn hyfforddiant. Gwelsom gofnodion ysgrifenedig o werthusiadau a chadarnhaodd staff i ni siarad â nhw eu bod wedi derbyn gwerthusiad o'u gwaith. Canfuwyd gennym fod staff wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ymarfer a bod ganddynt yswiriant indemniad ar waith.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn imiwneiddiad yn erbyn Hepatitis B i sicrhau eu diogelwch eu hunain a'u cleifion yn hyn o beth.

Mae deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Ac eithrio un deintydd, roedd tystysgrifau cofrestru pob un ohonynt wedi'u harddangos yn amlwg fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Er i ni allu cadarnhau bod gan yr unigolyn gofrestriad cyfredol, mae'n rhaid i'r deintydd wneud trefniadau i arddangos tystysgrif gyfredol. Nid oedd tystysgrif arall yn nodi'r manylion cywir ar gyfer AGIC arni. Er nad oedd hwn yn newid manylion i'r deintydd, roedd angen i'r

deintydd, yn unol â phroses AGIC, gysylltu ag AGIC i wneud cais am dystysgrif wedi'i diweddaru.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i unrhyw ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat arddangos tystysgrif gofrestru AGIC gyfredol.***

Cadarnhaodd rheolwr y practis bod gan bob deintydd dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Ac eithrio un, roedd y tystysgrifau hyn yn dangos dyddiadau cyflwyno yn ystod y tair blynedd diwethaf fel sy'n ofynnol o dan y rheoliadau uchod. O dan y rheoliadau, cyfrifoldeb y deintyddion unigol yw sicrhau bod tystysgrif wedi'i chyflwyno ar eu cyfer gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ystod y tair blynedd flaenorol. Er nad oedd tystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael i'w harchwilio, fe'n sicrhawyd bod cais wedi ei wneud am un newydd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid i unrhyw ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat na wnaethant ddarparu tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf) i'w harchwilio, wneud trefniadau priodol i anfon copi o'u tystysgrif wedi'i diweddaru gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael i AGIC.***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol The Village yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y bwrdd iechyd mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.


Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso yn rhan o'r broses arolygu ddeintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Y Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[6] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011[7]. Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

---

[6] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made

[7] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan yn berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar gymhwysiad safonau yn y practis yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol The Village

## Dyddiad yr Arolygiad: 11 Ionawr 2016

| Rhif Tudalen | Yr Hyn Sydd Angen ei Wella | Rheoliad/ Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| | Ni nodwyd fod angen unrhyw welliannau. | | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 11 | Mae'n rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau priodol i selio uniadau rhwng arwynebau gwaith, waliau a lloriau yn effeithiol (neu wneud trefniadau priodol eraill)) i atal dŵr, llwch a malurion rhag | Rheoliad 14(6)<br>Safon 2.4 | Wedi trefnu i gontractwr adeiladu newid y plinth yn neintyddfa 2 a seilio arwynebau gwaith yn ôl y gofyn | J Vaughan | 31 Mawrth |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn Sydd Angen ei Wella | Rheoliad/ Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | casglu mewn holltau.<br>[WHTM 01-05, Pennod 6] | | | | |
| 11 | Mae'n rhaid i berchennog y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau cydymffurfiad â'r Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1) o ran:<br>• cludo offerynnau deintyddol rhwng yr ystafell ddadheintio a'r ardaloedd triniaeth yn y practis.<br>• newid toddiant glanhau a dŵr rinsio a ddefnyddir ar gyfer glanhau a rinsio offerynnau deintyddol.<br>• cofnodi'r dyddiad prosesu ar becynnau offerynnau deintyddol wedi'u sterileiddio.<br>[WHTM 01-05, Pennod 2 (Para 2.27), Pennod 16, Pennod 2 (Para 2.4(k), 2.4 (l)) a Phennod 4 (Para 4.26) | Safon 2.4 | Disodli bocsys cludo offerynnau gyda rhai y gellir eu cloi<br>Hyfforddi staff i sicrhau bod toddiannau'n cael eu newid cyn pob cylch sterileiddio yn unol â pholisi/protocol ysgrifenedig y practis<br>Ychwanegu dyddiad prosesu yn ogystal â dyddiad terfyn | | Cwblhawyd<br>Cwblhawyd<br>Cwblhawyd |
| 13 | Mae'n rhaid i berchennog y practis | Safon 2.9 | • John Vaughan yw'r | J Vaughan | Cwblhawyd |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn Sydd Angen ei Wella | Rheoliad/ Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | wneud trefniadau priodol i sicrhau bod y wybodaeth a'r dogfennau sy'n ofynnol i ddangos y defnydd diogel o offer radiograffig a ddefnyddir yn y practis ar gael i'w harolygu gan AGIC.<br>[Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 (IRR99)] | | Goruchwylydd Diogelwch Ymbelydredd<br>• Penodwyd [Enw'r Sefydliad] fel Cynghorydd Diogelwch Ymbelydredd y practis.<br>• Ychwanegwyd yr ardal a reolir at gynllun adeilad y ddeintyddfa.<br>• Mae'r ardaloedd a reolir 1.5m o ben y tiwb.(Gweler y cynlluniau a anfonwyd)<br>• Gosodwyd peiriannau pelydr x 70662310 a 70662309 ym mis Ionawr 2014 - yn disgwyl copïau o'r profion gosod gan [Enw'r Cwmni] | | Cwblhawyd<br>Cwblhawyd<br>23/2/2016 |
| 14 | Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddyn nhw yn cael eu cynnal yn unol â safonau | Safon 3.5 | Trafodwyd y meysydd a amlygwyd gyda'r holl ddeintyddion<br>I'w archwilio mewn 3 mis | J Vaughan | Cwblhawyd<br>16 Mawrth |

| Rhif Tudalen | Yr Hyn Sydd Angen ei Wella | Rheoliad/ Safon | Camau gan y Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.<br><br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1] | | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 16 | Mae'n rhaid i unrhyw ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat arddangos tystysgrif gofrestru AGIC gyfredol. | Rheoliad 4 | Deintyddion sy'n gweithio mewn practis arall i ofyn am gopi o'r dystysgrif gan AGIC | | Cwblhawyd |
| 16 | Mae'n rhaid i unrhyw ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat na wnaethant ddarparu tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf) i'w harchwilio, wneud trefniadau priodol i anfon copi o'u tystysgrif wedi'i diweddaru gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael i AGIC. | Rheoliad 13(3)(c) Atodlen 2<br><br>Para. 2 | Derbyniwyd yr un archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd na welwyd | | Cwblhawyd |

**Cynrychiolydd y Practis:**

| | |
|---|---|
| **Enw (llythrennau bras):** | **John Vaughan.** |
| **Teitl:** | **Dr** |
| **Dyddiad:** | **17/2/2016** |